Credyd Treth Plant

Beth yw Credyd Treth Plant

Telir Credyd Treth Plant (CTP) i bobl sy'n gyfrifol am o leiaf un plentyn. Caiff ei dalu gan Gyllid a Thollau EM. Gallwch gael CTP p'un eich bod yn gweithio neu beidio. Rydych yn cael arian am bob plentyn yr ydych yn gyfrifol amdano. Os ydych yn byw gyda rhywun fel pâr, mae'n rhaid i chi wneud cais am CTP fel pâr.

Pwy sy'n gallu cael CTP

Gallwch gael CTP os ydych yn 16 neu'n hŷn, yn gyfrifol am blentyn ac nid yw eich incwm dros swm penodol.

Mae'r term 'plentyn' yn cyfeirio at rywun sydd o dan 16 oed. Ond gallwch hefyd wneud cais i berson ifanc rhwng 16 a 20 os ydynt mewn hyfforddiant llawn amser neu addysg llawn amser nad yw'n addysg uwch.

Rydych chi'n gyfrifol am blentyn os ydyw fel arfer yn byw gyda chi, p'un ai mai chi yw rhiant y plentyn neu beidio. Os yw plentyn fel arfer yn byw rhan o'r amser gyda chi a rhan o'r amser gyda'r rhiant arall, dim ond un rhiant all dderbyn CTP.

Sut i geisio am CTP

I geisio am CTP am y tro cyntaf, mae'n rhaid i chi lenwi ffurflen gais sef ffurflen TC600. Gallwch gael y ffurflen drwy ffonio llinell gymorth Credydau Treth HMRC ar 0345 300 3900 (ffôn testun 0345 300 3909). Mae galwadau yn costio'r un faint â chyfradd galwadau ffôn lleol. Gallwch geisio am Gredyd Treth Gwaith ar yr un ffurflen. Dylech ateb yr holl gwestiynau ar y ffurflen gais rhag ofn y gallwch gael Credyd Treth Gwaith hefyd.

Bydd angen i chi lenwi llawer o wybodaeth, gan gynnwys manylion o'ch incwm ar gyfer y flwyddyn dreth flaenorol. Bydd hefyd angen i chi roi eich rhif yswiriant gwladol a Budd-dal Plant. Os ydych yn ei chael yn anodd llenwi'r ffurflen, dylech edrych ar y nodiadau atodedig, ffoniwch linell gymorth Credydau Treth, neu mynnwch gyngor gan ymgynghorydd profiadol.

Faint o CTP y gallwch ei gael

Mae CTP yn cynnwys dwy **elfen**:

- yr **elfen deulu**. Caiff hyn ei dalu i'r teulu sy'n gyfrifol am o leiaf un plentyn.
- yr **elfen blentyn**. Caiff hyn ei dalu ar gyfer pob plentyn neu berson ifanc yn y teulu. Gallai'r elfen hon fod yn uwch os oes gan y plentyn anabledd.

Mae'r ffordd y caiff CTP ei gyfrifo yn gymhleth iawn. Os ydych yn gyfrifol am o leiaf un plentyn a bod eich incwm yn llai na £50,000 y flwyddyn, dylech gael ychydig o CTP. Pan gaiff eich CTP ei gyfrifo, bydd HMRC yn ystyried incwm eich teulu, nifer y plant yn eich cartref, eu hoed a ph'un ai bod ganddynt unrhyw anableddau. Os

Hawlfraint © 2002-2011 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

ydych yn gweithio, bydd HMRC hefyd yn ystyried eich oriau gwaith a'ch costau gofal plant.

Yr uchafswm o'r elfen deulu y gallwch ei gael yw £545 y flwyddyn. Yr uchafswm o'r elfen blentyn yw £2,300 y flwyddyn, er gallai hyn fod yn fwy ar gyfer plentyn anabl ac mae'n dibynnu ar ba anabledd sydd ganddo.

Mae gan wefan HMRC gyfrifiannell ar-lein y gallwch ei ddefnyddio i ddarganfod p'un ai eich bod yn gymwys i dderbyn CTP (a Chredyd Treth Gwaith) a faint y dylech ei dderbyn. Ewch at y wefan: www.hmrc.gov.uk

Pa mor hir y telir CTP

Caiff credydau treth eu rhoi am bob flwyddyn dreth gyfan. Mae'r flwyddyn dreth yn dechrau ar Ebrill 6 hyd nes Ebrill 5ed y flwyddyn ganlynol. Os ydych yn hawlio ar ôl Ebrill 6ed, bydd eich credyd treth gwaith yn cael ei gyfrifo o'r dyddiad yr ydych yn hawlio hyd nes diwedd y flwyddyn dreth. Os yw eich amgylchiadau yn newid yn ystod y cyfnod hwn, dylech ddweud wrth HMRC cyn gynted â phosib oherwydd gallai hyn effeithio ar eich hawliad.

Ôl-ddyddio taliadau CTP

Gallwch gael eich taliadau CTP wedi'u hôl-ddyddio os mae'n debygol y gallech fod wedi cael credydau treth os oeddech wedi hawlio ynghynt. Yn y mwyafrif o achosion, gallwch gael hyd at dri mis o daliadau wedi'u hôl-ddyddio. Fodd bynnag, os ydych yn derbyn elfen anabledd Credyd Treth Plant neu Gredyd Treth Gwaith, mae'n bosib gallwch gael mwy na thri mis wedi'u hôl-ddyddio.

Sut caiff CTP ei dalu

Caiff CTP ei dalu'n uniongyrchol i mewn i'ch cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu, neu gyfrif cerdyn swyddfa bost. Gallwch ei dderbyn yn wythnosol neu'n fisol.

Problemau gyda CTP

Os ydych yn meddwl bod eich credydau treth yn anghywir, gallwch ofyn i linell gymorth Credyd Treth HMRC i esbonio ei benderfyniad . Os nad ydych yn fodlon, gallwch apelio.

Os ydych yn anhapus gyda gwasanaeth yr HMRC, er enghraifft, oherwydd y bu oedi wrth ddelio gyda'ch hawliad neu maen nhw wedi colli eich dogfennau, y cam cyntaf yw cwyno i swyddfa'r credyd treth sy'n delio â'ch hawliad.

Os nad yw'r ymateb yn eich bodloni, gallwch fynd â'r cwyn ymhellach.

Gall llinell gymorth Credyd Treth HMRC esbonio'r hyn ddylech ei wneud os hoffech fynd â'ch cwyn ymhellach, neu mynnwch gyngor gan ymgynghorydd profiadol.

Hawlfraint © 2002-2011 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Cymorth ychwanegol

Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth
Mae'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd ac annibynnol yn rhad ac am ddim i'ch helpu chi i ddatrys eich problemau. I ddod o hyd i'ch CAB agosaf, gan gynnwys y rheiny sy'n rhoi cyngor drwy e-bost, cliciwch ar CAB agosaf, neu edrychwch yn eich llyfr ffôn dan y llythyren C.

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Credydau treth – hysbysu newid mewn amgylchiadau
- Budd-daliadau ar gyfer teuluoedd a phlant
- Budd-daliadau a chredydau treth ar gyfer pobl sy'n gweithio
- Problemau gyda budd-daliadau a chredydau treth
- Gordaliad credydau treth
- Credyd Treth Gwaith

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth, enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith. Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr, Cymru a'r Alban yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 9 Mehefin 2011, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - - www.adviceguide.org.uk – lle gallwch lawrlwytho copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2011 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr